

Cod Llesiant Gwasg y Bwthyn

Iechyd	
Cod Llesiant	Annog staff, aelodau'r Bwrdd a'r awduron i ofalu am eu lles meddyliol a chorfforol.
Gweithred	- Annog staff i gymryd seibiant yn rheolaidd oddi wrth eu sgriniau cyfrifiadur, unai am baned neu sgwrs - Hwyluso a hyrwyddo gweithgareddau i wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol e.e. annog staff i fynd am dro yn ystod amser cinio - Cynghori staff i beidio ag ymateb i e-byst tu allan i oriau gwaith a phan ar wyliau blynyddol
Cydraddoldeb	
Cod Llesiant	Dileu unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu, brawychu neu erledigaeth yn y gweithle.
Gweithred	- Trin ein holl staff, aelodau Bwrdd ac awduron yn deg a chyfartal waeth beth fo'u hoed, anabledd, ailbennu rhyw, statws priodasol/ partneriaeth sifil, statws beichiogrwydd/ mamolaeth/ teulu, hil (sy'n cynnwys tarddiad ethnig, lliw, cenedligrwydd, a tharddiad cenedlaethol), crefydd, cred, rhyw neu ogwydd. - Cynnig gweithio hyblyg lle bynnag y bo modd - Dydi'r swyddfa ddim yn hygyrch i bawb, felly byddwn yn ei gwneud yn hysbys fod modd cyfarfod mewn lle hygyrch yng Nghaernarfon os mai dyna ddymuniad y cleient.
Gweithle Cydlynol	
Cod Llesiant	Sicrhau bod staff, aelodau'r Bwrdd a'r awduron yn cael y wybodaeth diwedddara ac yn cael cyfle i roi adborth a chydweithio gydag eraill.
Gweithred	- Trefnu cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd Bwrdd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y wybodaeth ddiwedddara - Annog y staff, aelodau'r Bwrdd a'r awduron i roi adborth a rhannu syniadau ar unrhyw agwedd o waith y wasg. - Annog cydweithredu yn eang e.e. gyda gweisg eraill, gyda busnesau a'r gymuned leol lle bo' hynny'n briodol
Iaith a Diwylliant	
Cod Llesiant	Nôd a phwrrpas y Wasg yw hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru, rydym yn gweithredu drwy'r Gymraeg ac annog diwylliant Cymreig a Chymraeg yw'n prif iaith.
Gweithred	- Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg - Lledu'r wybodaeth am lyfrau Cymraeg drwy'r wefan ddwyieithog - Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Gymreig trwy gynnal digwyddiadau megis lansiadau llyfrau.

Cod Eco Gwasg y Bwthyn

Gwastraff	
Cod Eco	'Dydi Gwasg y Bwthyn ddim yn creu llawer o wastraff uniongyrchol. Ond byddwn yn osgoi creu gwastraff yn y lle cyntaf, defnyddio cyn lleied ag sy'n bosib, aildefnyddio ac ailgylchu lle bo' hynny'n bosib
Gweithred	Sicrhau bod unrhyw sbwriel sydd yn cael ei gynhyrchu yn y swyddfa yn cael ei roi mewn bin priodol i'w ailgylchu.
Trafnidiaeth	
Cod Eco	Annog mwy o ffyrdd o deithio sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd
Gweithred	- Lleihau'n teithio lle bo modd trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a chyfarfodydd rhithiol - Annog cerdded a seiclo os ydi hynny'n bosib - Hyrwyddo rhannu ceir lle bo hynny'n bosib – i ddigwyddiadau ag ati.
Prynu	
Cod Eco	Argraffu llyfrau yw ein prif fusnes. Byddwn yn sicrhau fod y papur a ddefnyddir naill wedi ei ailgylchu neu yn dod o ffynhonnell FSC. Byddwn hefyd yn annog ein hargraffwyr i ddefnyddio inc wedi ei wneud o lysiau.
Gweithred	- Sicrhau bod ein llyfrau yn cael eu cynhyrchu mor gynaliadwy â phosib. - Cadw at weithdrefnau caffael cynaliadwy ein sefydliad
Dŵr	
Cod Eco	Byddwn yn arbed dŵr lle bynnag bosib
Gweithred	- Diffodd tapiau pryd bynnag nad ydynt yn cael eu defnyddio - Rhoi gwybod am unrhyw wastraff dŵr, e.e. tapiau sy'n diferu - Peidio gorlenwi'r tegell
Ynni	
Cod Eco	Byddwn yn lleihau'r defnydd o ynni
Gweithred	- Troi gwres / golau i ffwrdd/lawr pan nad oes eu hangen - Cau bob drws / ffenestr yn y gaeaf; - Diffodd offer trydanol pan fo'n briodol
Bioamrywiaeth	
Cod Eco	'Does dim gardd nac eiddo arall gan y wasg
Gweithred	Byddwn yn hapus iawn i gyhoeddi llyfrau/nofelau sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd byd natur.
Codi Ymwbyddiaeth	
Cod Eco	Byddwn yn hysbysu ein holl ymwelwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol ynglŷn â sut yr ydym yn edrych ar ôl ein hamgylchedd
Gweithred	Byddwn yn arddangos y Cod Eco yma yn y swyddfa ac ar ein gwefan.